# Arddodiaid / *Prepositions*

Mae arddodiaid yn eiriau bach pwysig iawn, e.e. **am**, **ar**, **i** ac ati.
*Prepositions are important little words, e.g.* **am**, **ar**, **i**, *etc.*

arddodiaid
+
treiglad
meddal

## Rhai arddodiaid pwysig

| | | | |
|---|---|---|---|
| am | dan | heb | wrth |
| ar | dros | i | gan |
| at | drwy | o | hyd |

Mae **treiglad meddal** mewn geiriau sy'n dod **yn syth ar ôl** yr arddodiaid yma.

Rydw i'n chwilio **am** lyfr ar Shakespeare.
*I'm looking for a book on Shakespeare.*

Maen nhw wedi symud **i** **G**aerdydd **i** fyw.
*They've moved to Cardiff to live.*

Fydd y plant ddim yn mynd i'r ysgol **ar** **dd**ydd Sadwrn.
*The children don't go to school on Saturdays (on a Saturday).*

arna i
ata i
ac ati

## Rhedeg arddodiaid

Mae arddodiaid yn newid ychydig os oes rhagenw'n dilyn:

**AR**

| | |
|---|---|
| ar + fi | arna i, arno i |
| ar + ti | arnat ti, arnot ti |
| ar + fe / fo | arno fe / fo |
| ar + hi | arni hi |
| ar + ni | arnon ni |
| ar + chi | arnoch chi |
| ar + nhw | arnyn nhw |

**AT**

| | |
|---|---|
| at + fi | ata i, ato i |
| at + ti | atat ti, atot ti |
| at + fe / fo | ato fe / fo |
| at + hi | ati hi |
| at + ni | aton ni |
| at + chi | atoch chi |
| at + nhw | atyn nhw |

amdana i
dana i
ac ati

**AM**

| | |
|---|---|
| am + fi | amdana i |
| am + ti | amdanat ti |
| am + fe / fo | amdano fe / fo |
| am + hi | amdani hi |
| am + ni | amdanon ni |
| am + chi | amdanoch chi |
| am + nhw | amdanyn nhw |

**DAN**

| | |
|---|---|
| dan + fi | dana i |
| dan + ti | danat ti |
| dan + fe / fo | dano fe / fo |
| dan + hi | dani hi |
| dan + ni | danon ni |
| dan + chi | danoch chi |
| dan + nhw | danyn nhw |

**drosto i**
**drwyddo i**
ac ati

### DROS

| | |
|---|---|
| dros + fi | drosto i |
| dros + ti | drostot ti |
| dros + fe / fo | drosto fe / fo |
| dros + hi | drosti hi |
| dros + ni | droston ni |
| dros + chi | drostoch chi |
| dros + nhw | drostyn nhw |

### DRWY

| | |
|---|---|
| drwy + fi | drwyddo i |
| drwy + ti | drwyddot ti |
| drwy + fe / fo | drwyddo fe / fo |
| drwy + hi | drwyddi hi |
| drwy + ni | drwyddon ni |
| drwy + chi | drwyddoch chi |
| drwy + nhw | drwyddyn nhw |

**hebddo i**
**rhyngddo i**
ac ati

### HEB

| | |
|---|---|
| heb + fi | hebddo i |
| heb + ti | hebddot ti |
| heb + fe / fo | hebddo fe / fo |
| heb + hi | hebddi hi |
| heb + ni | hebddon ni |
| heb + chi | hebddoch chi |
| heb + nhw | hebddyn nhw |

### RHWNG

| | |
|---|---|
| rhwng + fi | rhyngddo i |
| rhwng + ti | rhyngddot ti |
| rhwng + fe / fo | rhyngddo fe / fo |
| rhwng + hi | rhyngddi hi |
| rhwng + ni | rhyngddon ni |
| rhwng + chi | rhyngddoch chi |
| rhwng + nhw | rhyngddyn nhw |

**i fi / mi**
**ohono i**
ac ati

### I

| | |
|---|---|
| i + fi / mi | i fi / mi |
| i + ti | i ti |
| i + fe / fo | iddo fe / fo |
| i + hi | iddi hi |
| i + ni | i ni |
| i + chi | i chi |
| i + nhw | iddyn nhw |

### O

| | |
|---|---|
| o + fi | ohono i |
| o + ti | ohonot ti |
| o + fe / fo | ohono fe / fo |
| o + hi | ohoni hi |
| o + ni | ohonon ni |
| o + chi | ohonoch chi |
| o + nhw | ohonyn nhw |

**wrtho i**
**ynddo i**
ac ati

### WRTH

| | |
|---|---|
| wrth + fi | wrtho i |
| wrth + ti | wrthot ti |
| wrth + fe / fo | wrtho fe / fo |
| wrth + hi | wrthi hi |
| wrth + ni | wrthon ni |
| wrth + chi | wrthoch chi |
| wrth + nhw | wrthyn nhw |

### YN

| | |
|---|---|
| yn + fi | ynddo i |
| yn + ti | ynddot ti |
| yn + fe / fo | ynddo fe / fo |
| yn + hi | ynddi hi |
| yn + ni | ynddon ni |
| yn + chi | ynddoch chi |
| yn + nhw | ynddyn nhw |

### GAN

➡ tud. 109 i weld sut mae **gan** yn newid gyda rhagenw.

### MO

➡ tud. 37 i weld sut mae **mo** yn newid gyda rhagenw.

# Arddodiaid / Prepositions

1. Ysgrifennwch y treiglad yn gywir, e.e.

Rydw i'n siarad am ........................ John. (brawd)
Rydw i'n siarad am ...frawd........... John. (brawd)

(i) Rydw i'n siarad am ........................ John. (brawd)

(ii) Aeth hi i mewn drwy ........................ yr ystafell Gymraeg. (drws)

(iii) Roedd hi wedi dod heb ........................ . (ceiniog)

(iv) Sut mae mynd i ........................? (Bangor)

(v) Roedden nhw wedi dod o ........................ . (Caerdydd)

(vi) Mae'r bag ar ........................ yr ystafell Saesneg. (llawr)

(vii) Rydyn ni'n byw yn ........................ . (Tregaron)

(viii) Beth am fynd i aros yn........................ Llew Coch? (gwesty'r)

(ix) Mae hi eisiau siarad â ........................ yr ysgol. (pennaeth)

(x) Roedd e'n siarad â ........................ John. (tad)

## mewn ac yn

2. Ysgrifennwch **mewn** neu **yn** yn y bylchau, e.e.

Mae hi'n gweithio .............. siop.
Mae hi'n gweithio ...mewn... siop.

(i) Mae hi'n gweithio .............. siop.

(ii) Mae hi'n gweithio .............. Bassetts.

(iii) Rydw i'n byw .............. bynglo.

(iv) Rydw i'n byw .............. Aberystwyth.

(v) Mae e'n aros .............. y Llew Coch.

(vi) Mae hi'n aros .............. gwesty pedair seren.

(vii) Ydych chi'n hoffi cysgu .............. sach gysgu?

(viii) Rydw i'n hoffi cysgu .............. pabell.

(ix) Rydw i'n hoffi cysgu .............. y garafán.


(x) Beth am fynd i aros .............. hostel yn ystod yr haf?

# Rhedeg arddodiaid

3. Newidiwch y geiriau sy wedi eu tanlinellu, e.e.

Rydw i'n meddwl am + fe. ...Rydw i'n meddwl amdano fe / fo. ......

| | | |
|---|---|---|
| (i) | Rydw i'n meddwl am + fe. | ............................................................ |
| (ii) | Maen nhw'n siarad am + hi. | ............................................................ |
| (iii) | Paid â siarad am + ni. | ............................................................ |
| (iv) | Rydyn ni'n talu am + nhw. | ............................................................ |
| (v) | Maen nhw'n chwilio am + chi. | ............................................................ |
| (vi) | Mae'r llyfr ar + nhw. | ............................................................ |
| (vii) | Mae hi'n pwyso ar + ni. | ............................................................ |
| (viii) | Roedd hi'n gwrando ar + fe. | ............................................................ |
| (ix) | Mae hi'n gwrando ar + ni. | ............................................................ |
| (x) | Rydw i'n edrych ar + chi. | ............................................................ |
| (xi) | Mae e'n cerdded at + fi. | ............................................................ |
| (xii) | Mae hi'n mynd at + fe. | ............................................................ |
| (xiii) | Rydw i'n anfon llythyr at + nhw. | ............................................................ |
| (xiv) | Ydych chi'n ysgrifennu at + hi? | ............................................................ |
| (xv) | Maen nhw'n dod at + ni. | ............................................................ |
| (xvi) | Mae e wedi mynd heb + ni. | ............................................................ |
| (xvii) | Mae'r sŵn yn mynd trwy + fi. | ............................................................ |
| (xviii) | Mae Siân wedi dweud wrth + fi. | ............................................................ |
| (xix) | Pwy sy wedi dweud wrth + chi? | ............................................................ |
| (xx) | Rhowch y bwyd yn + fe. | ............................................................ |



| | | | |
|---|---|---|---|
| pwyso ar | *to lean on* | tanlinellu | *to underline* |

# Berfenwau + arddodiaid

4. Ysgrifennwch yr arddodiad cywir yn y bylchau, e.e.

Maen nhw'n edrych .............. y teledu.
Maen nhw'n edrych ...ar........ y teledu.

(i) Maen nhw'n edrych .............. y teledu

(ii) Rydw i eisiau gwrando .............. y radio.

(iii) Rydw i eisiau mynd .............. anrheg i barti pen-blwydd Ann.

(iv) Wyt ti eisiau siarad .............. fi?

(v) Talodd e £5.00 .............. y llyfr.

(vi) Rydw i eisiau dangos hwn .............. chi.

(vii) Peidiwch .............. siarad yn wirion.

(viii) Mae'r disgyblion yn cyfarfod ..............'r pennaeth heno.

(ix) Rydw i eisiau ymgeisio .............. y swydd.

(x) Rydw i wedi blino .............. y rhaglen yna.

(xi) Mae'r bachgen yn gwenu .............. Catrin.

(xii) Maen nhw'n ysgrifennu .............. y ferch bob wythnos.

(xiii) Maen nhw'n ysgrifennu .............. swyddfa'r heddlu bob wythnos.

(xiv) Mae e wedi rhoi anrheg hardd .............. Bryn.

(xv) Rydw i eisiau rhoi hwn .............. chi.


(xvi) Mae hi'n dweud popeth .............. ei mam.

(xvii) Maen nhw'n edrych ymlaen .............. y gwyliau.

(xviii) Mae'r erthygl yn sôn .............. bobl yn Affrica.

(xix) Mae'r darn yn cyfeirio .............. Gymru.

(xx) Roedd hi'n cydio .............. ei fraich e.



# Idiomau: ar

5. Ysgrifennwch y ffurf gywir yn y bylchau, e.e.

Mae annwyd ............................. . (ar + fe) Mae annwyd ......arno fe........... . (ar + fe)

(i) Mae annwyd ............................. . (ar + fe)

(ii) Mae'r ffliw ............................. . (ar + hi)

(iii) Mae peswch ............................. . (ar + nhw)

(iv) Mae'r ddannodd ............................. . (ar + ti)

(v) Mae cywilydd ............................. . (ar + hi)

(vi) Mae hiraeth ............................. . (ar + y plant)

(vii) Mae syched ............................. . (ar + ni)

(viii) Mae eisiau bwyd ............................. . (ar + nhw)

(ix) Mae ofn ............................. . (ar + nhw)

(x) Mae chwant bwyd ............................. . (ar + chi)

# Idiomau: ar neu gan / gyda

6. Llenwch y bylchau gyda'r gair cywir – **ar** neu **gan / gyda**:

Mae annwyd ............................. . (nhw) Mae annwyd ...arnyn nhw......... . (nhw)

(i) Mae annwyd ............................. . (nhw)

(ii) Mae ............................. gur pen. (fi)

**neu** Mae pen tost ............................. . (fi)

(iii) Mae syched ............................. . (nhw)

(iv) Mae hiraeth ............................. . (fi)

(v) Mae'n ddrwg ............................. . (nhw)

**neu** Mae'n flin ............................. . (nhw)

(vi) Mae'r ddannodd ............................. . (hi)

(vii) Does dim dolur gwddw ............................. . (John)

**neu** Does dim gwddwg tost ............................. . (John)

(viii) Ydy'r ffliw .............................? (nhw)

(ix) Oes annwyd .............................? (chi)

(x) Mae brech yr ieir ............................. . (ni)



Mae brech yr ieir arna i.

7. Gyda'ch partner, ysgrifennwch ddeialog: 'Yn y feddygfa'. Actiwch y ddeialog. Beth am wneud fideo?

| | |
|---|---|
| meddygfa (eb) | *doctor's surgery* |

# Idiomau: i

8. Ysgrifennwch y ffurf gywir yn y bylchau, e.e.

Rhaid ........................ fwyta bwyd iach. (fi)
Rhaid ...i mi / i fi... fwyta bwyd iach. (fi)

(i) Rhaid ........................ fwyta bwyd iach. (fi)

(ii) Rhaid ........................ ymarfer. (fe)

(iii) Rhaid ........................ gerdded. (hi)

(iv) Mae angen ........................ nofio. (nhw)

(v) Mae angen ........................ ddechrau loncian. (ni)

(vi) Mae'n bryd ........................ ymarfer. (chi)

(vii) Mae'n bryd ........................ fynd i'r pwll nofio. (Mrs Jones)

(viii) Mae'n hen bryd ........................ yrru llai. (Mr Jones)

(ix) Mae'n well ........................ fynd i'r Ganolfan Hamdden. (chi)

(x) Mae'n well ........................ redeg. (nhw)

9. Ysgrifennwch y treiglad yn gywir, e.e.

Rhaid i fi .................... . (mynd)
Rhaid i fi .fynd........... . (mynd)

(i) Rhaid i fi .................... . (mynd)

(ii) Rhaid i ti .................... mwy. (rhedeg)

(iii) Rhaid i John .................... llai. (gyrru)

(iv) Mae'n bryd i Mrs Smith .................... i'r siopau yn lle mynd ar y bws. (cerdded)

(v) Mae angen iddyn nhw .................... bwyd iach yn lle sglodion bob nos. (coginio)


(vi) Mae angen i ni .................... llai o siocled a mwy o ffrwythau. (prynu)

(vii) Mae'n hen bryd iddyn nhw .................... ychydig o ymarfer corff yn lle gwylio'r teledu. (gwneud)

(viii) Mae angen iddyn nhw ....................'r teledu heno. (gwylio)

(ix) Rhaid iddyn nhw ....................'n galetach. (gweithio)

(x) Mae'n hen bryd i chi .................... . (dysgu)



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| loncian | *to jog* | ymarfer corff | *physical exercise* | yn lle | *instead of* |

10. Rydych chi'n mynd i wneud taflen yn dweud wrth rywun sut mae gwneud rhywbeth, e.e.

- sut i ofalu am anifail
- sut i ofalu am feic
- sut i wneud cacen

ac ati.




Rhaid i chi roi cyfarwyddiadau yn y daflen, e.e.

*Rhaid i chi ...*
*Rhaid i chi beidio ...*
*Mae angen i chi ...*

Defnyddiwch orchmynion hefyd os ydych chi eisiau.

Beth am gynnwys llun hefyd?



| | |
|---|---|
| cyfarwyddiadau (ll) | *instructions (pl)* |
| cynnwys | *to include* |
| gofalu am | *to look after* |
| gorchmynion (ll) | *commands (pl)* |
| taflen,-ni (eb) | *leaflet,-s* |

# gan a gyda

1. Llenwch y bylchau yn yr adran, '**Yn y Gogledd**' neu yn yr adran, '**Yn y De**', e.e.

| **Yn y Gogledd** | **Yn y De** |
|---|---|
| Mae .................... chwaer. (gan + ti) | Mae chwaer .................... . ( gyda + ti) |
| Mae ...gen ti...... chwaer. (gan + ti) | Mae chwaer ..gyda ti...... . ( gyda + ti) |

**Yn y Gogledd**

(i) Mae .................... chwaer. (gan + ti)

(ii) Mae .................... gath. (gan + fo)

(iii) Mae .................... gi. (gan + nhw)

(iv) Mae .................... gar. (gan + ni)

(v) Mae .................... feic. (gan + ti)

(vi) Mae .................... deledu yn fy ystafell wely. (gan + i)

(vii) Mae .................... dŷ newydd. (gan + nhw)

(viii) Mae .................... lawer o gryno ddisgiau. (gan + ni)

(ix) Mae .................... ddillad cŵl. (gan + chi)

(x) Mae ....................waith cartref erbyn yfory. (gan + fo)

**Yn y De**

(i) Mae chwaer .................... . (gyda + ti)

(ii) Mae cath .................... . (gyda + fe)

(iii) Mae ci .................... . (gyda + nhw)

(iv) Mae car .................... . (gyda + ni)

(v) Mae beic .................... . (gyda + ti)

(vi) Mae teledu .................... yn fy ystafell wely. (gyda + fi)

(vii) Mae tŷ newydd .................... . (gyda nhw)

(viii) Mae llawer o gryno ddisgiau .................... . (gyda + ni)

(ix) Mae dillad cŵl .................... . (gyda + chi)

(x) Mae gwaith cartref .................... erbyn yfory. (gyda + fe)

2. Trowch y brawddegau yn 1. (tudalen 58) yn negyddol, e.e.

| N | Yn y Gogledd | Yn y De |
|---|---|---|
| | Does gen ti ddim chwaer. | Does dim chwaer gyda ti. |

3. Trowch y brawddegau yn 1. (tudalen 58) yn gwestiynau, e.e.

| ? | Yn y Gogledd | Yn y De |
|---|---|---|
| | Oes gen ti chwaer? | Oes chwaer gyda ti? |

4. Atebwch y cwestiynau yma, e.e.

| ? | C | N |
|---|---|---|
| **Yn y Gogledd** | | |
| Oes gen ti chwaer? | Oes. | Nac oes. |
| | Oes, mae gen i chwaer. | Nac oes, does gen i ddim chwaer. |
| **Yn y De** | | |
| Oes chwaer gyda ti? | Oes. | Nac oes. |
| | Oes, mae chwaer gyda fi. | Nac oes, does dim chwaer gyda fi. |

5. Ysgrifennwch y treiglad yn gywir, e.e.

Mae gen i ..................... (brawd)
Mae gen i ...frawd........ (brawd)

(i) Mae gen i ..................... (brawd)

(ii) Mae ganddo fo ..................... (ci)

(iii) Mae gennyn ni ..................... (ceffyl)

(iv) Does gennyn ni ddim ..................... (cath)

(v) Does ganddo fo ddim ..................... (teledu)

(vi) Oes gennych chi .....................? (camera)

(vii) Oes ganddo fo ........................................... heno? (gwaith cartref)

(viii) Oes gen ti ........................................... yn dy dŷ? (llyfrau o'r llyfrgell)

(ix) Mae ganddyn nhw ........................................... (gormod o waith)

(x) Does ganddi hi ddim ........................................... (llawer o arian)

# Siarad am y teulu

6. Rydych chi'n mynd i siarad â'ch partner chi.

- Gwnewch holiadur.

  Ysgrifennwch gwestiynau i weld:

  - oes gan eich partner chi frawd neu chwaer / wncwl neu anti / ci / cath, ac ati;
  - faint.

7. Pwy sy'n perthyn?

- Darllenwch y darnau yma. Maen nhw'n disgrifio dau deulu.

  Mae'r disgrifiadau wedi cymysgu.

  Ceisiwch benderfynu pwy sy yn y ddau deulu.

**A** June Jones ydw i. Mae gen i ferch o'r enw Jessica a mab o'r enw Josh. Mae Tom, fy ngŵr i, yn 40 oed.

**B** Mae gen i ddau blentyn. Mae Tom, fy mab i, yn naw oed ac mae Anne yn chwech oed.

**C** Rydw i'n byw yn Aberbach gyda fy mam a fy chwaer fach.

**Ch** Rydw i'n byw gyda Dad, Mam a fy mrawd bach naw oed.

**D** Mae Mam a Dad, fy chwaer a fi'n byw yn Abermawr.

**Dd** Tom ydw i ac mae Jessica, fy merch i, yn un ar ddeg oed ac mae Josh, fy mab i, yn naw oed.

**E** Mae gen i frawd mawr. Mae e'n naw oed.

- Nawr, ysgrifennwch bedwar cerdyn yn disgrifio teulu enwog — fel y cardiau uchod.

  Rhowch eich cardiau chi a chardiau 2 berson arall gyda'i gilydd ar y bwrdd – yn wynebu i lawr.

  Cymysgwch y cardiau.

  Ceisiwch benderfynu pwy sy'n perthyn.

| | | | |
|---|---|---|---|
| cymysgwch | *mix* | penderfynu | *decide* |
| enwog | *famous* | wynebu i lawr | *to face downwards* |